
Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau

Canlyniadau'r DU fesul Gwlad (tonnau un i bedwar
arolwg ar-lein Ofcom wedi'u cyfuno)

Trosolwg

Mewn ymateb i Covid-19, mae Ofcom wedi comisiynu arolwg ar-lein wythnosol parhaus o oddeutu 2,000 o ymatebwyr, er mwyn monitro sut mae pobl yn cael newyddion a gwybodaeth am yr argyfwng. Mae'r ymchwil hwn wedi cael ei ddylunio i helpu amryw o randdeiliaid gyda'u gweithgareddau yn ystod y cyfnod hwn. Mae gwaith maes yn cael ei gynnal bob penwythnos, yn gofyn i bobl am eu harferion a'u hagweddau dros y saith niwrnod diwethaf.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng defnydd ac agweddau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er mwyn sicrhau samplau o faint cadarn, mae'r adroddiad hwn yn **cyfuno** canlyniadau o donnau un i bedwar ein hymchwil (gwaith maes rhwng 27 Mawrth a 19 Ebrill 2020), sy'n cyfateb i wythnosau un i bedwar y cyfyngiadau symud yn y DU.


Dylid nodi, gan mai methodoleg panel ar-lein ydyw, fod canfyddiadau'r arolwg yn cynrychioli barn ac arferion 87% o boblogaeth y DU sydd ar-lein¹.

Cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19

- Yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, roedd holl boblogaeth ar-lein y DU, fwy neu lai, yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19 o leiaf unwaith y diwrnod, heb wahaniaeth rhwng y gwledydd unigol (Cymru 98%, Lloegr 97%, yr Alban 97%, Gogledd Iwerddon 98%).
- Gwasanaethau'r BBC yw'r ffynhonnell sy'n cael ei defnyddio fwyaf (gweler Ffigur 1) ar draws pob gwlad (Cymru 78%, Lloegr 79%, yr Alban 76% a Gogledd Iwerddon 83%). Fodd bynnag, roedd cyfran y bobl oedd yn defnyddio darlledwyr ac eithrio'r BBC yn uwch yng Ngogledd Iwerddon (74%) a'r Alban (59%) o'u cymharu â Chymru (54%) a Lloegr (52%). Mae hyn oherwydd bod bron i bedwar o bob deg (38%) ymatebydd yn yr Alban yn defnyddio STV fel ffynhonnell, a dros hanner (55%) yr ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon yn defnyddio UTV.
- Mae cyfran y bobl sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am Covid-19 yn uwch yn yr Alban (46%) nac yng Nghymru (38%) a Lloegr (41%). Does dim gwahaniaeth ystadegol rhwng defnydd cyfryngau cymdeithasol yn yr Alban (46%) a Gogledd Iwerddon (40%).

¹ Ofcom, [Ein Gwlad Ar-lein](#) 2019

Ffigur 1: Ffynonellau a ddefnyddiwyd i gael newyddion/gwybodaeth am Covid-19 (tonnau un i bedwar wedi'u cyfuno)



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth-Ebrill 2020. C3a. Pa rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio i gael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws yn yr wythnos diwethaf? Sail: Yr holl ymatebwyr sy'n cael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws Wythnosau 1-4, Lloegr (7141), Yr Alban (686), Cymru (443) a Gogledd Iwerddon (293).

Nodyn: Mae 'ffynonellau newyddion eraill ar-lein' yn cyfuno tri math o ffynhonnell: gwefannau/apiau sy'n cynnwys sefydliadau newyddion ar-lein, fel BuzzFeed, Huffington Post, Vice ac ati; gwefannau neu apiau sy'n dod â newyddion oddi wrth ddarparwyr newyddion gwahanol at ei gilydd; a ffynonellau newyddion nad ydynt yn rhai prif-ffrwd fel Russia Today, Breitbart, Swawkbox ac ati

- Yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, ystyrir mai Teledu'r BBC yw'r ffynhonnell bwysicaf ar draws pob gwlad i gael newyddion/gwybodaeth am Covid-19 (Cymru 36%, Lloegr 35%, yr Alban 32%, a Gogledd Iwerddon 37%) ac yn ail mae gwasanaethau ar-lein y BBC (Cymru 11%, Lloegr 11%, yr Alban 12%, a Gogledd Iwerddon 12%). Mae un o bob deg ymatebydd (12%) yng Ngogledd Iwerddon yn nodi mai UTV yw eu ffynhonnell bwysicaf, ac mae 6% o'r holl ymatebwyr yn yr Alban yn dweud mai STV yw eu ffynhonnell bwysicaf.
- Mae pobl ar draws y DU yn rhannu gwybodaeth am Covid-19 fwy neu lai yn yr un ffordd. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud hynny wyneb yn wyneb/dros y ffôn (Cymru 78%, Lloegr 76%, yr Alban 77% a Gogledd Iwerddon 83%), ac yn ail mae ysgrifennu mewn grwpiau caeëdig fel WhatsApp, Teams a Zoom (Cymru 24%, Lloegr 28%, yr Alban 25% a Gogledd Iwerddon 25%).

Camwybodaeth am Covid-19


- Yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr ym mhob gwlad eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth ffug neu gamarweiniol (Cymru 43%, Lloegr 46%, Yr Alban 48% a Gogledd Iwerddon 48%).
- O ran y mathau o theorïau ffug neu gamarweiniol mae pobl wedi dod ar eu traws (o blith rhestr ddethol) yn ystod y bythefnos ddiwethaf ar draws y DU gyfan, y theori fwyaf cyffredin oedd yr un sy'n cysylltu Covid-19 â thechnoleg 5G (roedd 50% o'r ymatebwyr wedi dod ar draws hyn yn ystod wythnos 3, a 51% yn ystod wythnos 4). Gan edrych ar yr ymatebion wedi'u cyfuno ar draws y pedair wythnos, *'yfed dŵr yn amlach'* oedd y theori a glywyd fwyaf ar draws pob gwlad (Cymru 32%, Lloegr 28%, Yr Alban 27% a Gogledd Iwerddon 37%) ac yn ail oedd *"garglo dŵr halen"* (Cymru 18%, Lloegr 19%, yr Alban 19%, a Gogledd Iwerddon 26%)².
- Ar ôl gweld gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yr ymateb mwyaf cyffredin ym mhob gwlad oedd gwneud dim byd (Cymru 54%, Lloegr 56%, Yr Alban 55% a Gogledd Iwerddon 61%). Yr ymateb mwyaf cyffredin ond un ym mhob gwlad oedd defnyddio gwefan gwirio ffeithiau (Cymru 13%, Lloegr 14%, Yr Alban 14% a Gogledd Iwerddon 10%).

Cyngor swyddogol am Covid-19

- Mae pobl ledled y DU yn dilyn cyngor y llywodraeth ar Covid-19 i'r un graddau yn gyffredinol. Ar draws pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, mae pob ymatebydd ym mhob gwlad, fwy neu lai, yn dweud eu bod yn dilyn y cyngor swyddogol ar gadw pellter cymdeithasol naill ai'n agos iawn neu'n weddol agos (Cymru 97%, Lloegr 98%, Yr Alban 98% a Gogledd Iwerddon 99%), gan godi allan i nôl pethau hanfodol yn unig (Cymru 97%, Lloegr 97%, Yr Alban 96% a Gogledd Iwerddon 99%) a golchi eu dwylo'n rheolaidd (Cymru 92%, Lloegr 94%, Yr Alban 92% a Gogledd Iwerddon 93%) (gweler Ffigur 2).

² Oherwydd mai dim ond yn ystod wythnosau 3 a 4 y cafodd y datganiad am *'theorïau sy'n cysylltu tarddiad neu achosion Covid-19 â thechnoleg 5G'* ei gyflwyno yn yr arolwg, mae maint y sylfaen yn annigonol i ddadansoddi'r ymatebion fesul gwlad.

Ffigur 2: I ba raddau mae pobl yn dilyn cyngor swyddogol (tonnau un i bedwar wedi'u cyfuno)



Ffynhonnell: Arolwg newyddion Covid-19 Ofcom, Mawrth-Ebrill 2020. Nodyn: Efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. C13. Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor agos byddech chi'n dweud eich bod yn dilyn cyngor swyddogol ar yr agweddau canlynol o'r Coronafeirws? Sail: Pob ymatebydd Wythnosau 1-4, Cymru (445), Lloegr (7191), yr Alban (689) a Gogledd Iwerddon (295)

Agweddau tuag at Covid-19 a'r sylw yn y cyfryngau

- Teledu'r BBC yw'r ffynhonnell mae pobl yn ymddiried fwyaf ynddi i gael gwybodaeth am Covid-19 ar draws pob gwlad (Cymru 78%, Lloegr 78%, yr Alban 76% a Gogledd Iwerddon 79%). Fodd bynnag yn yr Alban, STV yw'r darlledwr mae pobl yn ymddiried mwyaf ynddo (81%); yng Ngogledd Iwerddon, UTV (80%) ac yng Nghymru, ITV Cymru (80%). Cyfryngau cymdeithasol a grwpiau caeëdig yw'r cyfryngau mae pobl yn ymddiried leiaf ynddynt i gael gwybodaeth am Covid-19 – mae 15% o'r ymatebwyr yng Nghymru, 15% yn Lloegr, 14% yn yr Alban ac 14% yng Ngogledd Iwerddon yn ymddiried yn Facebook, ac mae 24% o'r ymatebwyr yn Lloegr a 28% yn yr Alban yn ymddiried yn Twitter³.
- Roedd ymatebwyr yn yr Alban (12%) yn llai tebygol o ddweud eu bod yn 'ddryslyd ynghylch beth dylan nhw fod yn ei wneud mewn ymateb i Covid-19' o'u cymharu â'r ymatebwyr yng Nghymru (19%) a Lloegr (16%). Roedden nhw hefyd yn llai tebygol o ddweud bod 'y cyfryngau prif ffrwd yn gorliwio difrifoldeb Covid-19' (14%) na'r ymatebwyr yng Nghymru a Lloegr (19% ill dwy). Hefyd, roedd ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon (13%) yn llai tebygol o ddweud hyn na'r ymatebwyr cyfatebol yn Lloegr.

³ Mae maint y sylfeini ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhy fach i ddarparu cymariaethau.